

## Mordecai Modern: Volodymyr Zelenskyy a Purim

Nathan Abrams

Yr wythnos hon, ar yr 16<sup>eg</sup> a'r 17<sup>eg</sup> o Fawrth, rydym yn dathlu gŵyl Iddewig Purim. Mae Purim, sy'n golygu “coelbrennau”, yn fân-wyl Iddewig sy'n coffáu achub Iddewon Shushan ym Mhersia yn y 5ed ganrif CC rhag ffigwr proto-Hitleraid, fel yr adroddir yn Llyfr Esther.

Roedd Haman, oedd yn oruchwyliwr brenhinol i'r Brenin Ahasferus (Xerxes I neu Artaxerxes I) yn cynllwynio i ddifa'r holl Iddewon yn Ymerodraeth Persia. Dywedodd Haman wrth y Brenin Ahasferus, “Y mae yna genedl, wedi ei chwalu a'i gwasgaru ymhlith y bobloedd yn holl daleithiau dy deyrnas, sy'n ei chadw ei hun ar wahân. Y mae eu cyfreithiau yn wahanol i rai pobl eraill, ac nid ydynt yn cadw cyfreithiau'r brenin; ac nid yw er lles y brenin eu goddef.” (Esther 3:8)

Dewisodd Haman fwrw coelbren i bennu'r mis a'r dydd gorau i ymosod ar yr Iddewon a dyna pam y gelwir yr ŵyl yn Purim.

Yn ffodus, rhwystrwyd cynlluniau Haman gan ddau Iddew, Mordecai ac Esther, a ddaeth yn Frenhines Persia. Aeth pethau i'r gwrthwyneb - dinoethwyd Haman, trechodd yr Iddewon eu gelynion gan nodi'r dydd â gorfoledd a gwledda.

Nid oes sôn am Dduw yn unman yn y stori ond credir ei fod yn gweithio yn y cefndir i waredu'r Iddewon rhag niwed.

Nid oes unrhyw beth cyfatebol ym Mhrydain heddiw, ond gellir cymharu Purim â Charnifal Fenis neu Mardi Gras. Fe'i dethlir trwy adrodd yn gyhoeddus o Lyfr Esther, fel rheol mewn synagog, ac yn ystod y darlleniadau hyn fe'n cyfarwyddir i foddi enw Haman trwy fwhwman a gwneud sŵn mawr pan glywir ef. Rydym yn cyfnewid rhoddion o fwyd a diod ac yn rhoi elusen i'r tlodion.

Mae arferion eraill yn cynnwys gwisgo dillad ffansi a mygydau, perfformio dramâu byrion, a dathlu'n gyhoeddus. Rydyn ni'n bwyta teisennau o'r enw *hamantaschen* (“poced Haman”) ac fe'n hanogir i yfed digon o alcohol nes ein bod yn lled-feddw. Mae Purim yn amser i ymlacio.

I ddyfynnu'r hen jôc am wyliau Iddewig, “Fe wnaethon nhw geisio ein lladd ni, fe wnaethon ni oroesi, nawr gadewch i ni fwyta!”

Ond mae ochr fwy difrifol i Purim, un sy'n atseinio â sefyllfa heddiw. Mae stori Purim yn sôn am arweinydd gormesol sy'n ceisio dileu'r Iddewon am ddim rheswm arall na rhagfarn a hwythau'n cael eu hachub gan ymyriadau amserol dau o'r bobl hynny.

Yn Wcráin heddiw, rydym ni'n dyst i wlad lle mae llawer o Iddewon a phobl eraill yn byw yn cael eu bygwth gan arweinydd gormesol. Mae Iddewon wedi byw yn Wcráin ers canrifoedd ond wedi cael eu lladd gan gyfundrefnau olynol, gan arwain at ddigwyddiadau trasig yr Holocaust pan laddwyd 900,000 o Iddewon gan y Natsiaid ynghyd â'u cydweithwyr yn Wcráin.

Mae Wcráin bellach yn cael ei harwain gan arlywydd Iddewig, Volodymyr Zelenskyy, y bu ei daid yn ymladd yn erbyn y Natsiaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd ond y llofruddiwyd ei deulu yn yr Holocaust. Mae rhai wedi ei alw'n “Macabead modern” ond yng ngoleuni gŵyl Purim, efallai y gallwn ei alw'n Mordecai modern.